# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gerddi Glasfryn**

**Safle Gwynfryn**
**Ffordd Nantglyn**
**Dinbych**
**LL16 4ST**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 15 Mai 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Gerddi Glasfryn yw'r cyfleuster preswyl ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Plas Brondyffryn, sef ysgol arbennig i ddisgyblion sydd â chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu anawsterau cyfathrebu cysylltiedig. Mae'r gwasanaeth yn darparu llety dros nos yn ystod y tymor am hyd at 4 noson yr wythnos rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Gall y gwasanaeth ddarparu llety ar gyfer hyd at 24 o blant a phobl ifanc (y cyfeirir atynt fel pobl ifanc o hyn ymlaen) rhwng 7 a 19 oed ar unrhyw un adeg. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli y tu allan i dref Dinbych yng Ngogledd Cymru.

Darparwr y gwasanaeth yw Cyngor Sir Ddinbych a'r rheolwr penodedig yw Janet Jones. Ar adeg yr arolygiad, roedd Gerddi Glasfryn yn darparu gwasanaeth ar gyfer 10 o bobl ifanc.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Gwelsom fod y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gofal a chymorth o ansawdd da iawn, a'u bod yn mwynhau aros yng ngwasanaeth Gerddi Glasfryn ac yn cael budd ohono. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo iechyd a llesiant y bobl ifanc. Mae gan y bobl ifanc gydberthnasau cadarnhaol iawn â'r staff sy'n dangos diddordeb yn y bobl ifanc a hoffter tuag atynt. Cânt eu cadw'n ddiogel ac maent yn cael gofal gan staff maent yn eu hadnabod yn dda ac sy'n gyfarwydd â'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn llawn cymhelliant ac maent am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl ifanc. Mae'r rheolwr yn gefnogol o'r staff a datblygiad y staff. Mae rolau'r rheolwr, yr arweinwyr tîm a'r staff yn glir ac roedd llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd sefydledig. Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy gynnal prosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu'r safonau gofal. Mae'r amgylchedd ffisegol yn groesawgar, cyfforddus a chartrefol.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer y staff nos wedi'u hadolygu a'u datblygu a phrynwyd dyfeisiau cyfathrebu newydd. Mae hyn wedi sicrhau bod y cyfathrebu rhwng y staff yn well.

Mae'r staff wedi mynychu hyfforddiant rheoli heintiau ac mae aelod dynodedig o'r staff bellach yn gyfrifol am sicrhau y caiff protocolau eu dilyn.

Cyflwynwyd ffurflenni atgyfeirio ymyrraeth cynhwysiant er mwyn gwneud cais ffurfiol am ymyrraeth gan y swyddog cymorth cynhwysiant mewn perthynas ag ymddygiadau penodol, ac mae cofnodion ymddygiad wedi cael eu cyflwyno er mwyn gallu dadansoddi ymddygiadau dros gyfnod o amser.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi asesu bod Gerddi Glasfryn yn darparu safon uchel iawn o ofal i'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae adran 5 o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Gwella annibyniaeth y bobl ifanc drwy ddarparu cyfleoedd iddynt siopa am gynhwysion ar gyfer prydau.

Cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg yn y gwasanaeth yn y datganiad o ddiben.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae gan y bobl ifanc gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis pan fyddant yn aros yng ngwasanaeth Gerddi Glasfryn. Mae'r staff a'r rheolwyr yn gofyn am eu barn o ran eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth. Caiff y bobl ifanc eu hannog a'u cefnogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

Gwelsom fod anghenion cymdeithasol a hamdden y bobl ifanc yn cael eu diwallu. Gwelsom o'r cofnodion fod y bobl ifanc wedi gallu mynd ar deithiau i'r sw, acwariwm Sea Life a thaith drên o amgylch Llyn Tegid. Roedd gweithgareddau wythnosol yn cynnwys mynychu sesiynau trampolîn a nofio ac roedd y plant hŷn yn mynychu 'Buzz Club'. Gwnaethom siarad â phedwar person ifanc a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau. Dywedodd y staff a'r rheolwr wrthym fod y bobl ifanc wedi bod yn mynychu gwersi marchogaeth a sgïo tan yn ddiweddar, ond cafwyd anawsterau yn ceisio dod o hyd i slotiau amser a oedd yn cyd-fynd ag amserlenni'r bobl ifanc. O ganlyniad, gwnaed ymdrechion i ddod o hyd i weithgareddau amgen ac roedd y cofnodion yn dangos bod aelod o'r staff wedi cysylltu â darpariaethau gweithgareddau posibl eraill, gan gynnwys dringo wal a gweithdy crochenwaith. Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn a drefnwyd, roedd y bobl ifanc wedi mynd i'r sinema, i barciau, caffis a siopau. Cadarnhaodd y gweithwyr cymdeithasol a'r rhieni fod y bobl ifanc yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ysgogol. Caiff y bobl ifanc gymorth i fod yn weithgar; gallant wneud pethau sy'n bwysig iddynt a rhoi cynnig ar bethau newydd.

Mae'r bobl yn gwybod â phwy y gallant siarad os byddant yn anhapus neu'n pryderu am rywbeth. Roedd y Canllawiau i Bobl Ifanc a Datganiad o Ddiben y gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn. Ymwelodd eiriolwr annibynnol â'r gwasanaeth, gan roi'r cyfle i'r bobl ifanc siarad â pherson annibynnol, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd yr eiriolwr wedi cwblhau adroddiad ar gyfer pob ymweliad. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol wrthym fod y gwasanaeth yn *"very person led"* a gwelsom y staff yn ymgynghori â'r bobl ifanc am eu dewisiadau. Roedd y bobl ifanc yn gwneud penderfyniadau am eu prydau bwyd a'u byrbrydau, ac am y gweithgareddau y byddent yn hoffi cymryd rhan ynddynt. Yn ogystal â hyn, roedd y bobl ifanc wedi'u cynrychioli yng nghyfarfodydd Cyngor Cymunedol Gerddi a gynhaliwyd bob tymor. Dewiswyd cynrychiolydd o bob fflat gan eu cymheiriaid, er y gallai pob un o'r bobl ifanc fynychu pe byddent am wneud hynny. Gwelsom o gofnodion y cyfarfodydd fod y staff wedi gofyn i'r bobl ifanc am eu dewisiadau o ran teithiau a gweithgareddau ac roeddent wedi gofyn am adnoddau ychwanegol. Roedd y cyfarfod nesaf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn yr oedd y staff yn ei wneud o ran dod o hyd i weithgareddau newydd. Y canlyniad i'r bobl ifanc yw bod ganddynt lais, y gallant fynegi eu barn, bod pobl yn ymgynghori â nhw a bod y cartref yn gwrando ar eu barn ac yn cymryd camau gweithredu.

Mae'r bobl ifanc yn ddiogel pan fyddant yn cael gofal yng ngwasanaeth Gerddi Glasfryn. Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol y gwnaethom siarad â nhw fod y gwasanaeth yn cadw'r bobl ifanc yn ddiogel, am fod asesiadau risg wedi'u cynnal; roedd y staff wedi defnyddio'r dull gweithredu cywir o ran cefnogi pobl ifanc ac roedd y cymarebau staffio yn briodol. Gwelsom fod y staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant amddiffyn plant; diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed; ac iechyd a diogelwch . Y canlyniad ar gyfer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth yw eu bod yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed.

Caiff y bobl ifanc eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a meithrin eu sgiliau unigol, gan gynnwys sgiliau bywyd. Gwelsom o'u cynlluniau personol a ffeiliau targedau fod gan y bobl ifanc amcanion clir ar gyfer dysgu a datblygu. Gwelsom fod y staff yn ysgogi'r bobl ifanc mewn ffordd sensitif a gofalgar i wneud pethau drostynt eu hunain. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw fod y plant wedi gwneud cynnydd gwych oherwydd ymdrechion y staff a chysondeb y dull gweithredu a ddefnyddiwyd. Dywedodd y gweithwyr cymdeithasol fod sgiliau cymdeithasol y bobl ifanc wedi gwella a bod eu hannibyniaeth yn cael ei hyrwyddo o ganlyniad i'r cymorth maent yn ei gael gan y staff. Mae'r bobl ifanc yn mynd i siopa'n aml i brynu pethau gyda'u harian poced, ond dywedodd y staff fod bwyd bellach yn cael ei archebu ar-lein, ac mae hyn wedi golygu nad yw'r bobl ifanc yn gallu siopa ar gyfer eu prydau mwyach. Codwyd hyn gyda'r rheolwr a ddywedodd y byddai'n trafod hyn gyda'r swyddog cymorth ariannol i weld a ellid ailsefydlu hyn yn rhannol fel bod gan y bobl ifanc gyfle i lunio bwydlen, gwneud rhestr siopa a phrynu'r cynhwysion ar gyfer y prydau o'u dewis. Caiff y bobl ifanc eu hannog a'u cefnogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.

## 2. Safonau Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Caiff y bobl ifanc yng ngwasanaeth Gerddi Glasfryn ofal amserol a phriodol sy'n canolbwyntio ar y person, a chânt eu trin â pharch. Caiff gofal y bobl ifanc ei drefnu'n dda a chaiff eu hanghenion eu hasesu'n drylwyr, a llunnir cynllun i ddiwallu eu hanghenion mewn ffordd sydd wedi'i theilwra at yr unigolyn. Mae ymdeimlad o berthyn a fynegir drwy'r cydberthnasau cynnes a chadarnhaol rhyngddyn nhw a'r staff. Mae hyrwyddo iechyd a llesiant y bobl ifanc wrth wraidd y gofal gânt. Gall y bobl ifanc gyfathrebu â'r staff sy'n gofalu amdanynt yn Gymraeg.

### Ein canfyddiadau

Gellir rhoi sicrwydd i'r bobl ifanc bod y gwasanaeth yn cydweithio â'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill wrth gynllunio a darparu gofal y bobl ifanc. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol wrthym fod y staff wedi bod yn ymarferol iawn o ran cysylltu ag asiantaethau yn ôl yr angen. O'n trafodaethau a dadansoddiad o ddogfennaeth ysgrifenedig, gwelsom fod gan y rheolwr a'r staff ddealltwriaeth dda o anghenion datblygu a chymorth unigol y bobl ifanc.  Edrychwyd ar sampl o gofnodion y bobl ifanc, gan gynnwys cynlluniau personol a chynlluniau cefnogi ymddygiad. Mae'r dogfennau hyn yn pennu'r camau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth y bobl ifanc o ddydd i ddydd. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan rieni yn cynnwys manylion am eu hanghenion gofal, eu dewisiadau personol a'u trefniadau dyddiol. Roedd gan bob person ifanc 'ffeil darged' ar waith a oedd yn nodi'r ffordd y dylid cefnogi'r person ifanc i gyflawni ei ganlyniadau personol a hyrwyddo annibyniaeth. Roedd y ffeiliau yn darparu tystiolaeth o'r holl gynnydd a wnaed gan y bobl ifanc tra roeddent yn aros yng ngwasanaeth Gerddi, am fod y staff wedi darparu gwybodaeth ysgrifenedig ac wedi cynnwys ffotograffau o'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a chwblhau tasgau yn eu fflatiau. Rhoddir cymorth i bobl ifanc gyda'u datblygiad personol.

Caiff anghenion a gofynion y bobl ifanc eu hasesu a'u monitro. Gwnaethom siarad â'r staff yn ystod yr arolygiad ac roedd yn amlwg eu bod yn adnabod y bobl ifanc, eu hanghenion, eu hoff a chas bethau yn dda iawn, ac yn gwybod y ffordd orau o roi cymorth a gofal iddynt. Cynhaliwyd adolygiadau rheolaidd o gynlluniau gofal a chymorth y bobl ifanc, a oedd yn cynnwys gweithwyr allweddol, rhieni a gweithwyr cymdeithasol neu arweinwyr tîm y person ifanc. Roedd y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut roedd eu plentyn wedi treulio ei amser yng ngwasanaeth Gerddi drwy ddefnyddio dyddiaduron. Roedd hyn yn sicrhau cyfathrebu da rhwng y staff yn yr ysgol, Gerddi a'r rhieni. Cynhaliwyd diwrnodau agored fel y gallai rhieni ymweld â'r gwasanaeth a siarad â'r staff am gynnydd eu plentyn. Roedd holiaduron rhieni wedi cadarnhau bod y cyfathrebu rhwng y rhieni a'r gwasanaeth yn dda iawn. Gwnaethom siarad â gweithiwr cymorth y Tîm Cynhwysiant, sy'n treulio pedair awr bob wythnos yng ngwasanaeth Gerddi er mwyn helpu'r staff gyda dulliau gweithredu a strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad er mwyn galluogi pawb i gymryd rhan yn y

gweithgareddau. Cyflwynwyd ffurflenni atgyfeirio ffurfiol er mwyn gwneud cais i gael ymyrraeth ynghylch ymddygiadau penodol, a chyflwynwyd cofnodion ymddygiad er mwyn galluogi'r staff i fonitro ymddygiad dros gyfnod o amser. Dywedodd y gweithiwr cymorth wrthym fod hyn wedi sicrhau bod sbardunau wedi'u nodi a bod strategaethau wedi'u llunio er mwyn helpu'r staff i gefnogi'r bobl ifanc. Y canlyniad ar gyfer y bobl ifanc yw eu bod yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir yn unol â'u dymuniadau.

Mae'r staff a'r rheolwr yn creu amgylchedd lle gall y bobl ifanc deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r bobl ifanc. Gwelsom y staff yn rhoi'r sylw unigol yr oedd ei angen ar y bobl ifanc mewn ffordd hamddenol a pharchus. Gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r bobl ifanc mewn ffordd yr oeddent yn ei deall. Defnyddiwyd dulliau llafar a dieiriau er mwyn sicrhau bod eu hanghenion a'u dewisiadau yn hysbys, ac ymatebodd y staff mewn ffordd garedig gan roi canmoliaeth. Roedd hi'n amlwg bod y bobl ifanc yn hoff iawn o'r staff a oedd yn gofalu amdanynt. Cadarnhaodd y rhieni fod eu plant yn mwynhau mynd i'r gwasanaeth a gwnaethant ddweud bod y staff yn *"lovely"* ac yn *"really helpful".* Mae hyn yn dangos bod gan y bobl ifanc gydberthynas dda â'r staff; mae'r bobl ifanc yn bwysig i'r staff ac maent am i'r bobl ifanc deimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Mae'r bobl ifanc yn cael eu hannog i fod mor iach a gweithgar â phosibl. Roedd y staff yn deall anghenion iechyd y bobl ifanc gan fod eu ffeiliau'n cynnwys gwybodaeth fanwl am unrhyw anghenion iechyd, diagnosis, meddyginiaeth ac alergeddau. Gwelsom lythyrau gan weithwyr iechyd proffesiynol mewn ffeiliau a oedd yn dangos bod gan y gwasanaeth wybodaeth gyfredol am anghenion newidiol y bobl ifanc yn dilyn apwyntiadau meddygol. Pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi, roedd yn cael ei chadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo mewn ystafell ddynodedig dan glo a chwblhawyd cofnodion yn briodol. Roedd cofnod wedi'i lofnodi o'r holl feddyginiaeth a roddir, a oedd wedi'i ddarparu gan y rhieni cyn i'r plentyn ddod i aros yn y gwasanaeth. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol, megis rhoi meddyginiaeth, a hyfforddiant mwy penodol er mwyn sicrhau y gallent ddiwallu anghenion iechyd y bobl ifanc unigol. Gall y bobl ifanc fod yn hyderus y bydd y staff yn diwallu eu hanghenion iechyd.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg heb i'r bobl ifanc orfod gofyn amdano. Nid oedd unrhyw rai o'r bobl ifanc sy'n defnyddio Gerddi Glasfryn ar hyn o bryd am gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd yr holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg; fodd bynnag, roedd chwe aelod o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl ac roedd sawl aelod arall o'r staff yn siarad rhywfaint o Gymraeg. Dywedodd y rheolwr y gallai’r staff gael eu lleoli er mwyn sicrhau y gallai'r bobl ifanc gael gofal yn eu hiaith gyntaf os oeddent am wneud hynny. Mae hyn yn dangos y gall y bobl ifanc siarad Cymraeg wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

## 3. Ansawdd yr Arweinyddiaeth a'r Rheolaeth

### Crynodeb

Caiff pobl ifanc eu derbyn i'r gwasanaeth drwy bolisi derbyn cadarn sy'n ystyried yn llawn sut y caiff eu hanghenion eu diwallu a'r effaith y bydd eu derbyn yn ei chael ar y bobl ifanc sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gwaith o redeg y cartref o ddydd i ddydd yn dda iawn ac mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae'r rheolwyr yn monitro eu perfformiad. Mae'r staff yn mynychu'r hyfforddiant priodol er mwyn llywio eu hymarfer a chânt digon o gymorth. Bydd trefniadau staffio'n darparu cysondeb o ran gofal a chymorth i'r bobl ifanc. Mae systemau ar waith i asesu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

Mae systemau sicrhau ansawdd ar waith. Roedd y rheolwyr wedi gofyn am adborth gan y rhanddeiliaid ynglŷn ag ansawdd y gwasanaeth roedd y bobl yn ei gael, a chynhaliwyd proses fonitro fewnol. Roedd y rheolwr wedi dosbarthu holiaduron di-enw i rieni er mwyn cael adborth ar y gwasanaeth. Roedd y cwestiynau'n cynnwys – '*How happy are you about Gerddi Glasfryn's approach to your child's placement? How happy are you with your child's development and independence? How happy are you with the level of communication with Gerddi Glasfryn'.* Roedd naw rhiant wedi dychwelyd y ffurflenni ac roedd yr adborth i gyd yn gadarnhaol. Roedd y sylwadau yn cynnwys pethau fel *"Fantastic. I know X is well looked after"* ac *"Excellent work from all the staff";* a *"We look forward to reading the diary".*

Gofynnwyd am adborth ychwanegol gan y gweithwyr cymdeithasol. Gwelsom, pan oedd gweithiwr cymdeithasol wedi ymweld â'r gwasanaeth, ei fod yn cwblhau ffurflen er mwyn lleisio ei farn ar brofiadau'r bobl ifanc. Roedd sylwadau'n cynnwys pethau fel *"XX is more sociable and appeared very happy interacting positively with the other young people"* ac *"I really noticed a difference in how XXX presented today – in a positive way".*

Roedd un o lywodraethwyr yr ysgol wedi ymweld â'r gwasanaeth bob hanner tymor. Roedd yr ymweliadau yn rhai di-rybudd ac roedd yr ymwelydd yn cwblhau adroddiad ar ei ganfyddiadau. Gwelwyd bod yr adroddiadau yn drylwyr a bod y cofnodion wedi cael eu gwirio yn unol â'r hyn sy'n ofynnol, a bod trafodaethau wedi cael eu cynnal â'r bobl ifanc a'r staff. Cynhaliwyd ymweliadau ychwanegol gan benaethiaid cynorthwyol yr ysgol. Gwelsom fod hon yn enghraifft arfer da iawn am fod yr ymwelwyr wedi gwneud sylwadau ac argymhellion ynghylch arferion y staff. Roedd y rheolwr wedi cynnal adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi llunio adroddiad, a oedd yn gysylltiedig â'r canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc. Gall y bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn pennu safonau uchel iddo'i hun ac yn ymrwymedig i sicrhau ansawdd a gwella.

Mae'r bobl ifanc, eu teuluoedd a chomisiynwyr yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth. Gofelir am y bobl ifanc yn y ffordd a ddisgrifir yn natganiad o ddiben y gwasanaeth. Gwelwyd bod y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu, y strwythur rheoli a'r wybodaeth am y staff a'u cymwysterau. Roedd yn cynnwys

yr holl wybodaeth ofynnol, ac eithrio p'un a oedd y gwasanaeth yn darparu'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Gwelsom gopi o ganllaw'r bobl ifanc hefyd; roedd hwn wedi'i fformatio i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer anghenion y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd y canllaw yn cyfeirio at ba weithgareddau y gallai'r bobl ifanc gymryd rhan ynddynt yn y gwasanaeth, y rheolau a gwybodaeth am sut i wneud cwyn. Gwelsom fod rhestrau gwirio ar ffeiliau'r bobl ifanc a oedd yn rhestru 10 darn o wybodaeth a roddwyd i'r rhieni, a oedd wedi llofnodi'r rhestr wirio i gadarnhau eu bod wedi'i derbyn. Mae'r bobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol yn cael darlun manwl gywir o'r gwasanaeth.

Mae'r bobl ifanc yn cael budd o wasanaeth lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant staff, a lle caiff y staff eu harwain a'u cefnogi'n dda. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn wythnosol gyda phresenoldeb da gan y staff. Defnyddiwyd y rhain fel fforwm i adolygu'r hyn a ddigwyddodd yn ystod yr wythnos flaenorol ac i rannu gwybodaeth. Roedd arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal ac roedd y staff wedi cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd, oedd wedi canolbwyntio ar y bobl ifanc, yn ogystal â pherfformiad a gofynion yr aelod unigol o'r staff. Roedd y rheolwr wedi ymgymryd â dyletswyddau cysgu'r nos ddwy noson yr wythnos. Roedd hyn wedi ei galluogi i fonitro'r arferion yn ystod y nos a chynnal cyfarfodydd goruchwylio â'r staff nos. Dywedodd y staff wrthym yn ystod trafodaethau â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan y rheolwr a'r tîm a'u bod wir yn mwynhau gweithio gyda'r bobl ifanc. Ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd o staff ers yr arolygiad diwethaf, felly mae tîm y staff yn sefydlog, sydd wedi sicrhau gofal cyson i'r bobl ifanc. Gall y bobl ifanc fod yn siŵr bod y staff yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Mae pob aelod o'r staff yn brofiadol ac yn meddu ar y cymwysterau addas ac maent yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau hyfforddiant priodol er mwyn llywio eu hymarfer. Roedd y staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru Gwelsom gofnodion hyfforddiant y staff a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddi priodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod digon o hyfforddiant ar gael iddynt a bod yr hyfforddiant yn rhoi gwybodaeth ychwanegol iddynt i'w helpu i roi gofal i'r bobl ifanc. Roedd digon o aelodau o'r staff wedi'u cyflogi i sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu goruchwylio i lefel uchel ar ôl ysgol ac yn ystod y nos. Roedd trefniadau wrth gefn ar waith, gyda chynorthwywyr addysgu yr ysgol yn cyflenwi ar gyfer staff a oedd yn absennol. Gall y bobl ifanc fod yn hyderus eu bod yn cael gofal gan nifer ddigonol o staff, sy'n gyfarwydd iddynt ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

## 4. Ansawdd yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gwelsom fod Gerddi Glasfryn yn darparu amgylchedd cyfforddus, hapus a chartrefol iawn i'r bobl ifanc. Mae'r amgylchedd ffisegol yn groesawgar, mewn cyflwr da ac yn ddiogel. Mae mesurau iechyd a diogelwch ar waith i sicrhau diogelwch y bobl ifanc.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl ifanc yn cael eu cefnogi i aros mewn amgylchedd diogel. Gwelsom fod archwiliadau iechyd a diogelwch o'r amgylchedd ffisegol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod asiantaethau allanol wedi cadarnhau bod y cyfarpar yn ddiogel. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cynnal bob tymor. Roedd y fynedfa i'r safle yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod, am fod yn rhaid canu'r gloch i gael mynediad. Roedd person ifanc wedi gallu gadael yr adeilad heb gael ei weld. Ymchwiliwyd i hyn a rhoddwyd mesurau ar waith er mwyn atal hyn rhag digwydd eto. Gofynnwyd i ni am fanylion adnabod a gofynnwyd i ni gwblhau cofnod electronig ymwelwyr. Roedd cofnodion y bobl ifanc yn cael eu storio yn y swyddfeydd. Roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant rheoli heintiau, ac o ganlyniad, prynwyd cyfarpar newydd a chafodd gweithdrefnau eu hadolygu. Roedd aelod dynodedig o'r staff yn gyfrifol am sicrhau bod y protocolau yn cael eu dilyn. Caiff y bobl ifanc ofal ar safle sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Caiff y bobl ifanc ofal mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Mae chwe fflat ar wahân gyda lle i bedwar person ifanc ym mhob un. Er nad oedd pob un o'r fflatiau yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodau'r arolygiad, gwnaethom edrych ar bob un ohonynt a gwelsom fod pob un ohonynt yn groesawgar, yn lân ac yn cynnwys addurniadau a dodrefn deniadol. Roedd yr addurniadau a'r dodrefn mewn cyflwr da. Roedd pob fflat yn cynnwys pedair ystafell wely person ifanc, a oedd o faint addas ac wedi'u dodrefnu'n briodol; ystafell fyw/ystafell fwyta; cegin ac ystafell ymolchi. Roedd un rhiant wedi gweld y fflat roedd ei blentyn yn ei defnyddio a dywedodd wrthym: *"Staff have gone out of their way to make it similar to how things are at home."* Yn ogystal â hyn, mae ystafell drochi ddigidol y gall y bobl ifanc ei defnyddio a neuadd sy'n cael ei defnyddio ar gyfer gemau corfforol dan do a nosweithiau ffilm. Y tu allan, mae gardd gaeedig fawr syn cynnwys cyfarpar chwarae yn yr awyr agored. Gwnaethom arsylwi a gweld yn y cofnodion fod y bobl ifanc yn gallu defnyddio'r cyfleusterau dan do pryd bynnag yr hoffent. Mae swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod yn yr adeilad hefyd yn ogystal ag ystafelloedd gwely i'r staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau cysgu'r nos. Mae'r bobl ifanc yn cael gofal mewn amgylchedd hygyrch, cynnes, dymunol a chroesawgar sy'n gwella eu llesiant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach:

- Rydym yn argymell y dylai'r rheolwyr ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol, ac i gynnwys safbwynt y gwasanaeth ar y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn y datganiad o ddiben.
- Galluogi'r bobl ifanc i brynu eu bwyd eu hunain ar gyfer prydau o bryd i'w gilydd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd yn unol â fframwaith arolygu AGC. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 6 Mawrth 2019, rhwng 11:00 a.m. a 5.45 p.m., a gwnaethom ddychwelyd ar 13 Mawrth rhwng 9.00 a.m. a 3.35 p.m. i gynnal ymweliad lle y rhoddwyd rhybudd.

Defnyddiwyd y ffynonellau gwybodaeth canlynol i lywio'r adroddiad hwn:

- Gwnaethom adolygu gwybodaeth am y gwasanaeth a ddelir gan AGC.
- Arsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl ifanc.
- Gwnaethom siarad â'r rheolwr, pennaeth Ysgol Plas Brondyffryn, swyddog cymorth y tîm cynhwysiant a'r aelodau o'r staff ar ddyletswydd.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennu, gan gynnwys y Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Bobl Ifanc, ac amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau.
- Archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â diogelwch y safle.
- Archwilio'r safle, gan gynnwys yr ardaloedd cymunedol, ystafelloedd gwely'r bobl ifanc a'r ardd.
- Gwelsom sampl o ffeiliau'r bobl ifanc.
- Gwelsom sampl o ffeiliau'r staff.
- Gwnaethom siarad â saith rhiant.
- Gwnaethom siarad â thri gweithiwr cymdeithasol o'r awdurdod lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Ysgol Arbennig Breswyl** |
| **Person Cofrestredig** | **Cyngor Sir Ddinbych** |
| **Rheolwr** | **Janet Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **27/06/2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06/03/2019 a 13/03/2019** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |